**Pwyllgor Newid Hinsawdd,**
**yr Amgylchedd a Seilwaith**
**—**
**Climate Change, Environment,**
**and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

17 Gorffennaf 2024

Annwyl Huw,

Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol

Yn ystod ein cyfarfod ar 26 Mehefin 2024, fe wnaethom ystyried y Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol fel rhan o'n gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol o fewn ein cylch gwaith.

Mae'r Cytundeb yn ymwneud â sefydlu presenoldeb y DU ar gyfer Sefydliad Coedwig Ewrop, sy'n sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd gan wladwriaethau Ewropeaidd. Mae'r Cytundeb yn darparu'r breintiau a'r imiwneddau sy'n angenrheidiol i Sefydliad Coedwig Ewrop, iddo weithredu'n effeithiol yn y DU.

Rydym yn cydnabod fod y Cytundeb yn dod o fewn cymhwysedd a gadwyd yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, sy'n cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU, ac nad yw rhoi breintiau ac imiwneddau o dan gyfraith ryngwladol wedi'u datganoli.

Er gwaethaf hyn, nodasom hefyd fod gweithgareddau Sefydliad Coedwig Ewrop yn ymwneud â choedwigaeth, sef maes o gymhwysedd datganoledig sydd o ddiddordeb mawr i ni. Gwnaethom nodi ei bod yn ymddangos bod gan Sefydliad Coedwig Ewrop gysylltiadau â Phrifysgol Bangor a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod yn aelod o Gymdeithas Coedwigoedd Talaith Ewrop, EUSTAFOR, yn 2020.

Ar y sail hwn, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am y cyfleoedd posibl a rydd y Cytundeb hwn i Gymru.

Byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ar y materion a ganlyn:

- sefydlu Sefydliad Coedwig Ewrop yn y DU, gan gynnwys sut y gall Cymru elwa o'i bresenoldeb yn y dyfodol;
- y berthynas rhwng asiantaethau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru a Sefydliad Coedwig Ewrop;

- p’un ai a ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch datblygiad y Cytundeb; a
- gwybodaeth am unrhyw waith rhynglywodraethol sy'n digwydd, neu sydd i ddigwydd ar y cyd â Sefydliad Coedwig Ewrop, gan gynnwys mewn cysylltiad â'i ffocws bwriadedig i wella gwaith llywodraethu coedwigoedd yn fyd-eang.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 14 Awst fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.